WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Asesu Corfforaethol 2016

## Sy'n ymgorffori Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir Bro Morgannwg

Cyhoeddwyd: Awst 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 453A2016



Paratowyd yr Asesiad Corfforaethol hwn ar ran
Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, Lisa Williams,
Catryn Holzinger, Ron Price, Janet Smith, Avril Watkins,
Ena Lloyd a Dyfrig Williams o Swyddfa Archwilio Cymru
o dan gyfarwyddiad Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag archwilwyr penodedig yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.
Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Cyflwyno 6

## Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant 8

- Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac ategir yr agenda newid gan arweinyddiaeth effeithiol 8
- Mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi sicrhau gwelliant yn y gorffennol, ac maent yn cael eu mireinio i ateb heriau'r dyfodol 12
- Gallai datblygiadau o ran trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wella ei allu i werthuso perfformiad a chanlyniadau, os cânt eu hategu gan fesurau priodol ac adroddiadau cytbwys 16
- Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol, ond byddai cynlluniau arbedion a'r broses o gyflwyno adroddiadau ar arbedion yn cael budd o fanylion pellach 19
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod TGCh yn ffordd allweddol o ail-lunio gwasanaethau a chyflawni arbedion ac mae'n datblygu gweledigaeth gorfforaethol ac amcanion clir ar gyfer y gwasanaeth 22
- Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, drwy gynllun gweithlu datblygedig a gweithgarwch ymgysylltu helaeth â staff 23
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau rheoli asedau corfforaethol, ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau y caiff yr holl ddata eiddo, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau a gofynion rheoli adeiladau, eu cofnodi'n gywir a'u monitro 26
- Mae cysylltiadau â phartneriaid yn dda, ac mae trefniadau cydweithredol yn dod â manteision i waith y Cyngor mewn rhai meysydd allweddol, ond gellid gwella gweithgarwch craffu a'r ffordd y mae adnoddau ariannol yn cael eu rhannu ymhellach 30

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 33

Atodiad 2 – Adborth ar weithgarwch craffu 34

Atodiad 3 – Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16 36

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau, byddwn yn monitro datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

2 Diben yr asesiad corfforaethol yw darparu datganiad sefyllfa am adnoddau a gallu awdurdod gwella i sicrhau gwelliant parhaus. Yn naturiol, bydd yn ystyried perfformiad a chanlyniadau blaenorol awdurdod yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

3 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar y graddau y mae trefniadau yn helpu i wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **A all y Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion?**

4 Daethom i'r casgliad fod 'gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant'. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac ategir yr agenda newid gan arweinyddiaeth effeithiol;
- mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi sicrhau gwelliant yn y gorffennol ac maent yn cael eu mireinio i ateb heriau'r dyfodol;
- gallai datblygiadau o ran trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wella ei allu i werthuso perfformiad a chanlyniadau, os cânt eu hategu gan fesurau priodol ac adroddiadau cytbwys;
- mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol, ond byddai cynlluniau arbedion a'r broses o gyflwyno adroddiadau ar arbedion yn cael budd o fanylion pellach;
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod TGCh yn ffordd allweddol o ail-lunio gwasanaethau a chyflawni arbedion ac mae'n datblygu gweledigaeth gorfforaethol ac amcanion clir ar gyfer y gwasanaeth;

- mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, drwy gynllun gweithlu datblygedig a gweithgarwch ymgysylltu helaeth â staff;
- mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau cynllunio ar gyfer rheoli asedau corfforaethol, ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau y caiff yr holl ddata eiddo, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau a gofynion rheoli adeiladau, eu cofnodi'n gywir a'u monitro; ac
- mae cysylltiadau â phartneriaid yn dda, ac mae trefniadau cydweithredol yn dod â manteision i waith y Cyngor mewn rhai meysydd allweddol, ond gellid gwella gweithgarwch craffu a'r ffordd y mae adnoddau ariannol yn cael eu rhannu ymhellach.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella |
| --- |
| **Rheoli perfformiad**<br>• Gwneud newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoli perfformiad, gan barhau i ymgysylltu ac adolygu trefniadau, a sicrhau eu bod yn:<br>– canolbwyntio gweithgarwch adrodd ar berfformiad ar y meysydd pwysicaf;<br>– cysylltu'r gweithgarwch a gynhelir ym mhob rhan o'r sefydliad â'r canlyniadau a gyflawnir; a<br>– rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad i'r aelodau ac uwch swyddogion drwy ei osod yng nghyd-destun ffactorau corfforaethol eraill.<br>• Cysoni'r broses o bennu targedau â'r broses o gynllunio gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod targedau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau ac adnoddau. |
| **Cyllid**<br>• Cynnwys adroddiadau monitro arbedion manwl fel rhan o adroddiadau monitro cyllidebau ehangach, a nodi'r cynigion hynny sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. |
| **TGCh**<br>• Cwblhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo, er mwyn pennu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y gwasanaeth TGCh er mwyn ei alluogi i gynllunio a chyflawni ei rôl fel galluogydd corfforaethol. |
| **Rheoli Asedau**<br>• Cyflymu'r broses o gasglu data cydymffurfiaeth adeiladau ar gyfer eiddo a reolir gan y Cyngor, a sicrhau y cânt eu cofnodi'n ganolog. Wedi hyn, cyflymu'r broses o ddarparu hyfforddiant cydymffurfiaeth eiddo i Reolwyr/Deiliaid Dyletswydd er mwyn sicrhau bod pob adeilad yn cydymffurfio â safonau statudol, rheoleiddiol a chorfforaethol priodol ac y cânt eu cynnal a'u cadw i lefel briodol. |

## Cyflwyno

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

6 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o fewn awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau cynghorau o gynllunio gwelliant ac adrodd ar welliant, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol unwaith yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Yn y blynyddoedd rhwng asesiadau, byddwn yn monitro datblygiadau drwy ddiweddariadau ar gynnydd.

7 Mae'r adroddiad hwn yn nodi a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur. Bydd y farn hon ynglŷn â 'thebygolrwydd' yn seiliedig ar waith a wnaed a gwybodaeth flaenorol a gasglwyd ac felly mae'n adlewyrchu perfformiad ar adeg benodol. Ni ddylid ystyried ei bod yn rhoi sêl bendith am bedair blynedd na rhagfynegiant pendant o lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei bod yn rhoi sicrwydd o ran a yw'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail ein gwaith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- Gyflwyno cynigion ar gyfer gwella – gwnawn gynigion o'r fath yn yr adroddiad hwn a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.
- Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Ni welwn unrhyw reswm dros wneud argymhellion o'r fath.
- Cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Ni welwn unrhyw reswm dros gynnal arolygiad o'r fath.
- Argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd. Ni welwn unrhyw reswm dros wneud argymhelliad o'r fath.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Adroddiad manwl



# Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau i sicrhau gwelliant

## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni, ac ategir yr agenda newid gan arweinyddiaeth effeithiol

### Mae gan y Cyngor weledigaeth glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni sy'n adlewyrchu anghenion lleol a disgwyliadau cenedlaethol

10 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi pennu gweledigaeth glir o ran yr hyn y maent am ei gyflawni ar gyfer poblogaeth Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020 ac wedi nodi ei weithgarwch arfaethedig i ddangos sut y bydd yn cyfrannu at y nodau llesiant ar gyfer Cymru, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Wrth wneud hynny, mae hefyd wedi adlewyrchu barn trigolion lleol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol.

11 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi pedwar canlyniad bwriadedig, ynghyd ag wyth amcan ategol, sef:

- Bro gynhwysol a diogel drwy:
  - leihau tlodi a gwaharddiad cymdeithasol; a
  - darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.
- Bro lewyrchus sy'n gyfrifol am yr amgylchedd drwy:
  - hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth; a
  - hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu amgylchedd.
- Bro uchelgeisiol a diwylliannol fywiog drwy:
  - godi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol; a
  - gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.
- Bro heini ac iach drwy:
  - annog a hyrwyddo ffordd fyw heini ac iach; a
  - diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol.

12 Mae hefyd yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau.

13 Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, sy'n nodi gweledigaeth a chynigion y Cyngor ar gyfer cyflawni, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi cynnal asesiad o anghenion lleol ac wedi comisiynu adolygiad o dlodi yn y sir a arweiniodd ar Strategaeth Gymunedol 2011-2012, a Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfeirio gweithgarwch tuag at fynd i'r afael â phroblemau sy'n wynebu'r rhai mwyaf difreintiedig yn yr ardal.

14 Mae'r canlyniadau â blaenoriaeth a nodir yn y Strategaeth Gymunedol yn darparu set gydlynol o amcanion sy'n ceisio mynd i'r afael â materion allweddol ledled y sir. Maent yn hawdd eu deall ac yn cyfleu gweledigaeth y Cyngor a'i bartneriaid ar gyfer Bro Morgannwg:

- sy'n ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle mae gan unigolion a chymunedau gyfleoedd cynaliadwy i wella eu hiechyd, eu dysgu, eu sgiliau, eu ffyniant a'u lles; a
- lle mae ymdeimlad cryf o gymuned lle mae gan grwpiau ac unigolion lleol y gallu a'r cymhelliad i wneud cyfraniad effeithiol at gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol.

15 Cynhaliwyd arolwg o bob un o'r 47 o gynghorwyr a'r 45 o uwch reolwyr, a dywedodd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn glir ynglŷn â'r hyn roedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr asesiad hwn. Mae'n debyg bod hyn i'w briodoli i'r gwaith ymgysylltu cadarnhaol a wnaed wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, a chyfathrebu effeithiol â'r aelodau a staff.

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau priodol i ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer y ffordd y bydd yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol neu'n hwyluso'r gwaith o'u darparu

16 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo weithredu'n wahanol er mwyn iddo ateb dwy her galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau sy'n debygol o leihau. Yn 2014, lluniodd **Raglen Ail-lunio Gwasanaethau** a dechreuodd ei rhoi ar waith yn ystod 2015.

17 Yn 2015, gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth â chynghorwyr a staff er mwyn esbonio'r sail resymegol dros y rhaglen a cheisio barn a syniadau i gefnogi'r gwaith o wneud newidiadau.

18 Sefydlodd y Cyngor Fwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, sy'n cyfarfod bob pedair i chwe wythnos, a rhennir gwybodaeth a phapurau â staff ar system 'Staff Net' ac mewn dogfennau Briff Craidd ('Core Brief'). Dengys hyn barodrwydd i rannu cynnydd, nodi rhwystrau posibl a sicrhau bod staff yn cymryd rhan yn y broses.

19 Adolygwyd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar ddechrau 2015. Daethom i'r casgliad ei fod yn mabwysiadu prosesau priodol i lywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau, er nad oedd wedi pennu gweledigaeth benodol ar gyfer y math o gyngor roedd yn anelu at ei greu ar y bryd, a allai helpu i lywio'r opsiynau y byddai'n barod i'w hystyried, neu'r opsiynau na fyddai'n barod i'w hystyried, ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Gan ei fod wedi mynd ati i newid gwasanaethau cyn cyflwyno'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, mae darlun cymysg o fodelau cyflawni yn dod i'r amlwg, er enghraifft:

- mae'r Cyngor wedi cadw ei stoc dai yn dilyn pleidlais gan denantiaid ac ers hynny mae wedi gwella ansawdd y stoc dai honno;
- mae gwasanaethau hamdden wedi'u gosod ar gontract;
- mae'r gwaith o redeg pum llyfrgell wedi'i drosglwyddo i grwpiau cymunedol; ac
- mae'r Cyngor yn cynnal y Cydwasanaeth Rheoleiddiol, mewn cydweithrediad â dau gyngor cyfagos.

20 Mae'r Cyngor bellach ar gam mwy datblygedig yn y broses o weithredu'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac, ar adeg cynnal yr asesiad hwn, roedd amrywiaeth eang o waith yn mynd rhagddo. Roedd y Cyngor yn gwella ei ddealltwriaeth o'r amserlenni angenrheidiol, gan ystyried opsiynau ac ymgysylltu ag eraill cyn eu rhoi ar waith. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd fel canllaw i staff ar sut i wella effeithiolrwydd gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn seiliedig ar y 10 egwyddor genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac yn dangos ymrwymiad y Cyngor i sicrhau y ceisir amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau.

21 Gan fod adolygiadau o rai gwasanaethau amlwg pwysig ar fin cael eu cynnal, a gan fod y Cyngor yn datblygu'r tranche nesaf o brosiectau o dan y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, bydd yn amserol myfyrio ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn flaenorol ac edrych ar y math o opsiynau a ystyrir ar gyfer gwasanaethau penodol o safbwynt strategol. Mae'r Cyngor o'r farn bod ganddo systemau ar waith i'w alluogi i edrych ar opsiynau o safbwynt strategol, drwy'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cyd-gyfarfodydd y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Bwrdd Prosiect y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau (y mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr, pob Cyfarwyddwr a'r Arweinydd yn aelodau ohono) a'r Cabinet ei hun, yn ogystal â phwyllgorau craffu perthnasol.

## Mae uwch arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion arwain yn ymgysylltu'n effeithiol â staff fel ffordd o helpu i weithredu newidiadau a pharatoi ar gyfer y dyfodol

22 Mae Cynllun Corfforaethol 2016-2020 yn nodi gwerthoedd sy'n sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu, sef:

- Uchelgais – Meddwl yn flaengar, croesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol;
- Bod yn Agored - I syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud;
- Cydweithio – Fel tîm sy'n ymgysyllltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon; a
- Balchder – Rydyn ni'n ymfalchïo ym Mro Morgannwg: ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

23 Canfu ein hasesiad dystiolaeth bod y Cyngor yn rhoi'r gwerthoedd hyn ar waith, yn enwedig mewn perthynas â bod yn agored, cydweithio a dangos balchder yn yr hyn roedd y Cyngor yn ei wneud. Yn ymarferol dangoswyd hyn gan y canlynol:

- Y gwaith a wnaed i ddatblygu 'Siarter y Staff' nad oes a wnelo â Thelerau ac Amodau ond sy'n ailddiffinio'r gydberthynas rhwng y cyflogai a'r cyflogwr. Y nod yw lleihau nifer y polisïau a'u symleiddio a datblygu cydberthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a disgwyliadau clir.
- Y ffaith bod gwybodaeth a phapurau am y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cael eu rhannu ar 'Staff Net' a thrwy ddogfennau Briff Craidd.
- Y 'Caffi Arweinyddiaeth' ('Leadership Café') sydd wedi cael ei ddatblygu a'i lywio gan staff gyda chefnogaeth lawn y Cyngor (gweler paragraff 81 ac Astudiaeth achos 1 am ragor o wybodaeth).

24 Fe'i tanlinellwyd hefyd gan y ffaith bod y rhan fwyaf o'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â hwy wedi pwysleisio ansawdd y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2015 i helpu i ddatblygu'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Yn wir, roedd pob un o'r swyddogion a arolygwyd gennym o'r farn bod y Cyngor yn effeithiol wrth ymgynghori â staff. Roedd grwpiau ffocws staff yn gadarnhaol ar y cyfan, ond roedd rhai o'r farn bod cyfleoedd i ddatblygu gweithgarwch ymgysylltu â staff a leolir y tu allan i brif swyddfeydd y cyngor a'r rhai sydd â mynediad cyfyngedig i gyfrifiaduron ymhellach. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn a nododd y gweithgor 'Keeping me informed' (un o bedwar a sefydlwyd i ddatblygu canfyddiadau o weithgarwch ymgysylltu â staff) fod cyfathrebu â staff heb fynediad i gyfrifiadur yn gam gweithredu arfaethedig, i'w ystyried drwy Siarter y Staff.

## Mae trefniadau llywodraethu effeithiol wedi sicrhau gwelliant yn y gorffennol, ac maent yn cael eu mireinio i ateb heriau’r dyfodol

### Mae llinellau atebolrwydd clir yn sicrhau gwelliant

25 Ar adeg yr ymweliad asesu, roedd Cabinet y Cyngor yn cynnwys yr Arweinydd a phum aelod. Yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2016, lleihawyd nifer yr aelodau i bedwar, er mwyn cydnabod y pwysau ariannol sy’n wynebu’r Cyngor. Mae cyfrifoldebau portffolios yn glir, sy’n galluogi’r Arweinydd i ddwyn aelodau’r Cabinet i gyfrif. Mae’r Cabinet yn gweithio’n effeithiol gydag uwch reolwyr i lywio newid a datblygu strategaeth i ddiwallu anghenion lleol. Mae’r Cabinet hefyd yn gweithredu’n effeithiol i gydgysylltu gweithgarwch sy’n llywio gwelliant o fewn portffolios. Un enghraifft yw’r ymagwedd ‘ardal gyfan’ a fabwysiadwyd at weithgarwch yn ward Gibbonsdown, a arweiniodd at welliannau i ysgolion a thai.

26 Mae trefniadau arfarnu ar waith sy’n galluogi’r Cyngor i bennu amcanion ar gyfer y Rheolwr Gyfarwyddwr ac adolygu i ba raddau y maent wedi’u cyflawni. Mae trefniadau arfarnu ategol ar waith ar gyfer Cyfarwyddwyr sy’n galluogi’r Rheolwr Gyfarwyddwr i gytuno ar eu hamcanion a gwerthuso eu perfformiad. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau sy’n egluro cyfrifoldebau ac mae cynnydd yn cael ei adolygu’n rheolaidd.

27 Mae’r Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi’r cymorth sydd ar gael i’r aelodau ac, ynghyd â disgrifiadau rôl diwygiedig, mae’n rhoi canllawiau clir ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau aelodau. Anogir cynnal adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol, a ddefnyddir i lywio’r rhaglen datblygu aelodau, ar gyfer pob aelod ac fe’u disgwylir ar gyfer y rhai sy’n cael cyflogau uwch swyddogion (yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, aelodau’r Cabinet, cadeiryddion pwyllgorau craffu a phwyllgorau statudol ac arweinwyr grwpiau gwrthbleidiol).

28 Mae’r Pwyllgor Archwilio yn adolygu trefniadau llywodraethu ac yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Mae’r Pwyllgor hwn yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni rhaglen Archwilio Mewnol gadarn sy’n craffu ar feysydd risg allweddol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae adolygiadau’r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi nodi rhai methiannau a gwendidau system mewn prosesau gweithredu ac wedi gwneud argymhellion sydd wedi’i gwneud yn bosibl i sicrhau gwelliant. Ar adeg cynnal yr asesiad hwn, roedd y Cyngor yn atgyfnerthu’r trefniadau cyffredinol ar gyfer caffael a rheoli contractau yn sgil canfyddiadau’r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Er i’r broses ar gyfer nodi gwendidau ym mis Tachwedd 2014 weithio’n effeithiol, ac er bod yr ymateb corfforaethol ym mis Rhagfyr 2015 wedi bod yn gryf, roedd ymateb gwasanaethau i ganfyddiadau yn araf yn yr achos hwn.

29 Mae trefniadau craffu yn gweithredu o fewn fframwaith clir. Arsylwyd pwyllgorau craffu yn flaenorol ar ddechrau 2015 a chynhaliwyd sesiynau arsylwi pellach fel rhan o'r asesiad hwn. Nodwyd gennym fod y rolau a'r cyfrifoldebau craffu wedi'u diffinio, bod cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n effeithiol ar y cyfan a bod cefnogaeth dda gan Wasanaethau Democrataidd (gweler Atodiad 2 am ragor o wybodaeth). Ar adeg cynnal yr asesiad, roedd y Cyngor wedi datblygu Protocol Drafft ar gyfer Rolau a Chyfrifoldebau Craffu a'r Cabinet yn ddiweddar sy'n rhoi canllawiau pellach i gefnogi swyddogaeth graffu effeithiol. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Ebrill 2016. Mae'r Protocol yn gwahaniaethu'n glir rhwng rôl swyddogion a rôl aelodau'r Cabinet pan fyddant yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu. Mae'n nodi bod swyddogion yno i ateb cwestiynau penodol am berfformiad gweithredol gwasanaeth, ond bod aelodau'r Cabinet yno i ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r rhesymau dros benderfyniad.

30 Mae gan y Cyngor broses sefydledig ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol. Adolygodd ei Strategaeth Rheoli Risg (2012-2014) yn 2015 a chyhoeddodd fersiwn ddiwygiedig yn 2016, sef Strategaeth Rheoli Risg 2015-2017, sy'n disgrifio dull y Cyngor o reoli risg ac yn nodi cyfrifoldebau unigolion a grwpiau allweddol.

31 Mae'r Cyngor yn cadw Cofrestr Risg Gorfforaethol, sy'n nodi 13 o risgiau a allai gael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau yn y tymor canolig i hirdymor ac sy'n tueddu i fod yn rhai trawsbynciol. Mae gan bob un o'r risgiau hynny broffil risg, sy'n nodi ffactorau sy'n ymwneud â natur y risg, rheolaethau a gwrthfesurau. Adolygir y gofrestr yn flynyddol drwy'r asesiad risg sy'n cwmpasu'r Cyngor cyfan, a nodir unrhyw risgiau corfforaethol newydd.

32 Mae gan y Cyngor Grŵp Rheoli Risg Gorfforaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith penaethiaid gwasanaethau a'r grŵp hwnnw sy'n gyfrifol am gyflawni cyfran fawr o'r gwaith o reoli risg yn gyffredinol. Mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys datblygu'r strategaeth, monitro risgiau a chyflwyno adroddiadau arnynt a chadw a diweddaru'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ceisio ymgorffori prosesau asesu risg mewn meysydd gwaith allweddol er mwyn blaenoriaethu gweithgarwch a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau, megis y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.

33 Mae cynlluniau gwasanaeth 2015-16 yn nodi risgiau perthnasol, y rhoddir sgôr iddynt yn seiliedig ar ba mor debygol ydynt o ddigwydd a'u heffaith. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud â risgiau gwasanaeth-benodol a'r rhai a nodir ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae gwrthfesurau wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau gweithredu ategol.

34 Er bod trefniadau ar waith a ffocws corfforaethol ar reoli risg, roedd safbwyntiau gwahanol ynghylch y parodrwydd i fentro yn gyffredinol o fewn y Cyngor. Roedd rhai o'r farn bod y Cyngor yn ceisio osgoi risg, credai eraill ei bod yn bosibl ei fod wedi bod felly yn y gorffennol ac roedd eraill o'r farn bod y sefydliad yn ymwybodol o risg. At hynny, bydd angen i'r Cyngor ystyried ei ddull o reoli risg mewn perthynas â'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, er y bydd angen i'r Cyngor reoli ei risg ei hun wrth drosglwyddo gwasanaethau ac asedau i sefydliadau megis Cynghorau Tref a Chymuned, bydd angen iddo ystyried sut y gall gefnogi'r sefydliadau hynny drwy'r broses a throsglwyddo lefel briodol o risg.

## Mae trefniadau craffu yn cael eu mireinio er mwyn gwella effeithlonrwydd a'r gallu i werthuso canlyniadau sy'n cael eu cyflawni yn well

35 Mae trefniadau craffu yn y Cyngor wedi ymsefydlu ac mae tystiolaeth o aelodau yn herio ac yn monitro perfformiad. Fodd bynnag, mae adnoddau swyddogion craffu wedi cyfyngu ar nifer yr adolygiadau craffu 'gorchwyl a gorffen' yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2015, arolygodd y Cyngor holl aelodau a phedwar aelod cyfetholedig y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes. Roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a geid gan swyddogion ond mynegodd 28 y cant anfodlonrwydd â'r ffordd y câi pynciau eu dewis yn ogystal ag amau'r gwerth a ychwanegwyd gan waith craffu o ran llywio gwelliannau i wasanaethau.

36 Dros gyfnod ein harsylwadau, gwelwyd cynnydd yn nifer y cwestiynau a oedd yn cael eu holi a'r cyfraniadau a oedd yn cael eu gwneud gan bob aelod mewn rhai pwyllgorau, ond mewn pwyllgorau eraill, roedd nifer y cyfraniadau yn amrywio. At hynny, er i ni weld holi craff a ddangosodd fod yr aelodau yn deall y materion, nid ymddengys fod yr holi wedi'i gydgysylltu ym mhob rhan o'r pwyllgor. Gall rhag-gyfarfodydd a gaiff eu cynnal yn union cyn cyfarfod ffurfiol y pwyllgor roi cyfle i'r aelodau drafod a chytuno ar ganlyniad bwriadedig y cyfarfod, llinellau ymholi allweddol o ran y cwestiynau i'w holi a'r dull holi y mae'r pwyllgor yn bwriadu ei ddefnyddio. Gall rag-gyfarfodydd fel y rhain, felly, helpu i gynllunio gweithgarwch a llunio cwestiynau ar y cyd.[1]

37 Mae'r Protocol drafft ar gyfer Rolau a Chyfrifoldeb Craffu a'r Cabinet hefyd yn nodi y bydd Blaenraglen Waith y Cabinet bellach yn cael ei llunio i gwmpasu cyfnod llawn o 12 mis, ar ôl cael ei llunio bob chwarter yn flaenorol. Rhoddwyd hyn ar waith ers yr asesiad, gyda Blaenraglen Waith Strategol Flynyddol ar gyfer 2016-17 eisoes yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet. Bydd hyn yn galluogi pwyllgorau craffu i gynllunio eu rhaglenni gwaith eu hunain yn well er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar faterion allweddol ac y gallant gynnwys amser i ddatblygu polisïau drwy weithgarwch rhag-graffu, lle y bo angen.

38 Ar adeg cynnal yr asesiad hwn, roedd fframwaith newydd ar gyfer craffu yn cael ei sefydlu a allai wella gallu'r Cyngor i werthuso canlyniadau sy'n cael eu cyflawni yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol newydd, a disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1 **Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol,** Swyddfa Archwilio Cymru, 2014.

39 Ers yr asesiad, mae'r fframwaith wedi gweld cylchoedd gwaith y pum pwyllgor craffu yn cael eu hailddynodi er mwyn adlewyrchu pedwar canlyniad lles y Cyngor tra'n cynnal un Pwyllgor Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a Chraffu, sy'n cael gwybodaeth ariannol a gwybodaeth monitro perfformiad. Y bwriad yw y bydd gweithgarwch craffu yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac yn ystyried amrywiaeth ehangach o wybodaeth drawsbynciol. Nod ailstrwythuro pwyllgorau yw helpu i leihau unrhyw ddyblygu adroddiadau, er bod hyn yn amodol ar yr aelodau a swyddogion yn meithrin dealltwriaeth glir o'r pwyllgor 'cartref' ar gyfer materion a gwasanaethau a chyfathrebu rhwng cadeiryddion pwyllgorau. At hynny, gwneir rhagor o newidiadau ymarferol i wella trefniadau gweithio'r pwyllgorau drwy'r broses barhaus o roi camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwella Craffu ar waith.

40 Dylai'r newidiadau sy'n cael eu gwneud alluogi'r Cyngor i sicrhau bod gweithgarwch craffu yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy wneud y canlynol:

- cysoni blaenraglenni gwaith y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu fel eu bod yn canolbwyntio ar faterion allweddol ac yn hwyluso gweithgarwch rhag-graffu, yn ôl yr angen;
- rhyddhau amser agenda er mwyn canolbwyntio'n fanwl ar lai o eitemau, gan gynyddu effeithlonrwydd yn ogystal â'r effaith; a
- gwella'r wybodaeth y mae pwyllgorau craffu yn ei chael, drwy gysoni gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth bwysig arall, megis barn dinasyddion, canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a chefnogi'r broses o ystyried gwerth am arian.

41 Mae'n debygol y bydd y Cyngor, drwy ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau, yn gwneud nifer o drefniadau gwahanol â sefydliadau allanol. Bydd gan bwyllgorau craffu rôl i'w chwarae ar y dechrau drwy graffu ar gynigion a dylid adlewyrchu hyn yn y Blaengynlluniau Gwaith. Bydd gan bwyllgorau craffu rôl i'w chwarae hefyd o ran rhoi unrhyw drefniadau newydd o'r fath ar waith.

## Mae gwybodaeth am y Cyngor a'i berfformiad ar gael yn hawdd

42 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi cryn dipyn o wybodaeth am fusnes a pherfformiad y Cyngor ar ei wefan. Mae hefyd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth o dan y penawdau 'byw', 'gweithio' a 'mwynhau', a gall trigolion wneud taliadau a chyflwyno cwynion a cheisiadau eraill ar-lein.

43 Cyfeiriodd mwyafrif sylweddol o'r aelodau a'r swyddogion y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr asesiad hwn at ddiwylliant o fod yn agored a thryloyw a oedd yn datblygu'n gyflym yn eu cydberthnasau gwaith. Yn eu barn hwy, roedd hyn yn meithrin cyfranogiad mewn gweithgareddau newid a gwella, yn ogystal â mwy o hyder i drafod a datrys problemau. Mae hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol wrth i'r Cyngor symud tuag at roi'r cynigion sy'n deillio o'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith.

44 Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n cyhoeddi gwaith y Cabinet ar gyfer y flwyddyn i ddod drwy lunio Blaenraglen Waith sy'n cwmpasu cyfnod llawn o 12 mis.

45 Mae'r Cyngor yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gofrestru i siarad mewn cyfarfodydd drwy ei wefan. Yn ogystal â'r gallu i gofrestru cwestiynau i'r Cyngor, mae'r cyfleuster wedi'i ymestyn i'w gwneud yn bosibl i gofrestru cwestiynau i'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Cynllunio ac er mwyn cynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. Gall aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd awgrymu pwnc er mwyn i'r pwyllgor craffu ei ystyried.

## Gallai datblygiadau o ran trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor wella ei allu i werthuso perfformiad a chanlyniadau os cânt eu hategu gan fesurau priodol ac adroddiadau cytbwys

46 Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yng nghyd-destun dangosyddion cenedlaethol ac, ar y sail hon, cydnabuwyd ei fod yn un o'r Cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru. Fodd bynnag, nododd gwaith archwilio blaenorol, er y gall trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ysgogi gwelliannau o ran dangosyddion penodol, nad ydynt yn rhoi darlun clir o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Felly, gwnaethom gynigion ar gyfer gwella sy'n annog y Cyngor i ganolbwyntio ar ganlyniadau, yn rhoi darlun cytbwys o berfformiad ac yn dwyn ynghyd wybodaeth o rannau gwahanol o'r sefydliad, y mae'r Cyngor wedi'u cydnabod a'u derbyn. Mae hyn, ynghyd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi ysgogi'r Cyngor i wneud newidiadau mawr i'r fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad.

47 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn hyrwyddo ffocws ar ganlyniadau, ond mae hefyd yn rhoi pwyslais ar integreiddio swyddogaethau corfforaethol. Er mwyn monitro'r Cynllun yn effeithiol, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu prosesau adrodd ar berfformiad sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, a fydd yn dwyn gwybodaeth o bob rhan o'r 'system' ynghyd. Mae'n bwriadu llunio'r adroddiadau canlynol:

- Bydd **Adroddiad Iechyd Corfforaethol** chwarterol yn rhoi trosolwg o iechyd corfforaethol. Bydd yn cynnwys set 'gytbwys' o fesurau sy'n ymdrin â pherfformiad yn erbyn canlyniadau/amcanion lles, adnoddau (cyllid/arbedion, pobl, asedau a TGCh), canolbwyntio ar gwsmeriaid a risg. Mae'n debygol y bydd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o gynnydd a statws Coch, Oren a Gwyrdd (RAG) ar gyfer pob canlyniad, yn ogystal â nodi meysydd o danberfformiad ym mhob agwedd ar iechyd corfforaethol a chynnig camau adfer. Cyhoeddir 'datganiad sefyllfa' naratif, ar y cyd â'r data.
- **Adroddiad chwarterol ar ganlyniadau ac amcanion lles** ar gyfer pob canlyniad lles, a fydd yn dangos cynnydd yn erbyn y canlyniadau a'r amcanion cysylltiedig. Bydd yn dwyn ynghyd wybodaeth drawsbynciol am berfformiad o nifer o gynlluniau gwasanaeth. Fel uchod, bydd yr adroddiadau yn nodi meysydd o danberfformiad ac yn cynnig camau adfer. Cyhoeddir datganiad sefyllfa naratif, a ddarperir gan y cyfarwyddwr atebol, ar y cyd â'r data.

48 Mae grŵp o aelodau a swyddogion yn datblygu'r adroddiadau er mwyn sicrhau bod y trefniadau terfynol ar waith ar gyfer eu cyflwyno yn ystod chwarter cyntaf 2016-17. Bwriedir i'r fformatau ddefnyddio arddull 'dangosfwrdd/cerdyn sgorio' sy'n gyfunol ac yn hawdd ei deall. Er mwyn i'r trefniadau newydd fod yn effeithiol, bydd angen i'r Cyngor ddewis mesurau priodol i'w cynnwys yn yr adroddiadau. Bydd angen iddynt fod yn ddibynadwy, ar gael yn rheolaidd ac yn gyson iawn â'r canlyniadau a'r amcanion. Bydd yn hanfodol i'r mesurau hyn gael eu hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau tîm.

49 Gan y bydd yr adroddiadau yn symlach, bydd cydbwysedd a dibynadwyedd y wybodaeth yn hanfodol. Yn benodol, bydd angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng manylion cyflawniad a thanberfformiad. At hynny, bydd y datganiadau sefyllfa yn ychwanegu gwerth os byddant a) yn cysylltu'r agweddau gwahanol ar iechyd corfforaethol (e.e. y ffordd y gallai llai o adnoddau fod yn cynyddu risg neu'n arwain at lefelau is o foddhad cwsmeriaid) a b) yn nodi sut mae gweithgareddau penodol mewn rhannau gwahanol o'r sefydliad yn cyfrannu at gynnydd tuag at y canlyniadau neu'n ei rwystro.

50 Er y bydd angen cynnal adolygiad yn ystod y broses weithredu ac wrth ystyried adborth gan aelodau a swyddogion, gallai'r trefniadau hyn fynd i'r afael â chyfyngiadau a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol (fel y nodir ym mharagraff 49). Os byddant yn llwyddiannus, bydd y trefniadau newydd yn galluogi'r Cyngor i wneud y canlynol:

- canolbwyntio gweithgarwch adrodd ar berfformiad ar y meysydd pwysicaf;
- cysylltu'r gweithgarwch a gynhelir ym mhob rhan o'r sefydliad a'r canlyniadau a gyflawnir; a
- rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad i'r aelodau ac uwch swyddogion drwy ei osod yng nghyd-destun ffactorau corfforaethol eraill.

51 Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor sicrhau:

- bod y mesurau a gynhwysir yn rhoi'r darlun gorau o weithgarwch neu ganlyniadau;
- bod set fwy datblygedig o wybodaeth yn nodi meysydd allweddol o danberfformid ac yn egluro'r rhesymau drosto;
- bod atebolrwydd yn cael ei ddeall a bod cyfrifoldeb a rennir am y canlyniadau a gyflawnwyd yn cael ei gydnabod; a
- bod agweddau ar iechyd corfforaethol yn cael eu monitro fel mater o drefn ac y gallant fwydo data cywir i adroddiadau.

52 Bu gan y Cyngor Gynlluniau Corfforaethol a Chynlluniau Gwella ar wahân bob amser. Mae wedi disgrifio ei amcanion gwella fel nifer fach o feysydd rydym am ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau gwelliannau sylweddol yn gyflymach. Mae Cynllun Gwella 2016-17 yn nodi amcanion gwella sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lles y Cynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn cynnwys sail resymegol, canlyniadau, camau gweithredu a mesurau ar gyfer pob un o'r amcanion. Fodd bynnag, gallai'r cynllun nodi'r cysylltiad rhwng yr elfennau yn gliriach, er mwyn dangos pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pa ganlyniadau, a sut mae'r mesurau yn cyfateb i hynny.

53 I bob pwrpas mae'r Cyngor mewn blwyddyn drosiannol wrth iddo roi ei drefniadau arfaethedig ar waith a bydd angen iddo ystyried a oes agweddau ar yr amgylchedd cynllunio presennol a'r fframwaith perfformiad presennol y dylid eu diweddaru neu eu dileu yn gyfan gwbl. Bydd angen gwneud hyn er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r gweithgareddau pwysicaf a bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o amser aelodau a swyddogion.

54 Fel rhan o'i fframwaith rheoli perfformiad, mae gan y Cyngor Ganllaw ar Bennu Targedau sy'n nodi diben pennu targedau a sut y dylid gwneud hynny, gan gynnwys cyfrifoldebau gwahanol unigolion yn y tîm perfformiad corfforaethol a gwasanaethau. Mae'r canllaw yn nodi dyhead corfforaethol y dylai targedau fod yn heriol ac yn annog gwasanaethau i fod yn uchelgeisiol. Mae'n gwneud hyn drwy nodi y dylid pennu targedau yn unol â pherfformiad y chwartel uchaf lle y bo'n bosibl, ac os na fydd hyn yn bosibl, dylai bennu targed sy'n unol â chyfartaledd Cymru, gan nodi'r rhesymau dros wneud hynny. Cyfeirir hefyd at ganolbwyntio ar gynnal perfformiad yn hytrach na'i wella yn yr hinsawdd bresennol ac mae'n rhaid rhoi rhesymau i ategu'r safbwynt hwn hefyd.

55 Mae'r Cyngor yn asesu ei berfformiad yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol a meincnodau cenedlaethol neu feincnodau priodol eraill er mwyn pennu targedau. Fodd bynnag, mae'n defnyddio data ar ddiwedd y flwyddyn i bennu targedau ac yn dechrau'r broses yn y flwyddyn newydd. Er bod hyn yn golygu bod targedau yn seiliedig ar ddata terfynol, mae hefyd yn golygu bod y broses o bennu targedau yn cael ei chyflawni y tu allan i'r broses cynllunio gwasanaethau. Mae'r broses pennu targedau hefyd yn gofyn bod targedau yn cael eu herio gan bwyllgorau craffu, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Gwella a Datblygu. Ymddengys fod hyn yn gofyn am lawer o adnoddau, yn enwedig o gofio y gallai pwyllgorau craffu ystyried targedau pan fyddant yn ystyried cynlluniau gwasanaeth. Felly, mae'r broses yn dyblygu ymdrech swyddogion ac aelodau ac yn gyfle a gollwyd i ystyried targedau yng nghyd-destun blaenoriaethau ac adnoddau sydd ar gael fel rhan o'r broses gynllunio a gynhelir yn gynharach yn y flwyddyn.

| Cynnig ar gyfer Gwella |
| --- |
| **Rheoli perfformiad**<br>• Gwneud newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoli perfformiad, gan barhau i ymgysylltu ac adolygu trefniadau, a sicrhau eu bod yn:<br>– canolbwyntio gweithgarwch adrodd ar berfformiad ar y meysydd pwysicaf;<br>– cysylltu'r gweithgarwch a gynhelir ym mhob rhan o'r sefydliad â'r canlyniadau a gyflawnir; a<br>– rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad i'r aelodau ac uwch swyddogion drwy ei osod yng nghyd-destun ffactorau corfforaethol eraill.<br>• Cysoni'r broses o bennu targedau â'r broses o gynllunio gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod targedau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau ac adnoddau. |

## Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn effeithiol, ond byddai cynlluniau arbedion a'r broses o gyflwyno adroddiadau ar arbedion yn cael budd o fanylion pellach

56 Yn 2015-16, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor yng Nghymru er mwyn asesu eu cydnerthedd ariannol. Canolbwyntiodd y gwaith ar gyflawni arbedion 2014-15 a phrosesau cynllunio ariannol yn 2015-16. Yn ein hadroddiad i Fro Morgannwg ym mis Ebrill 2016, daethom i'r casgliad canlynol: 'Yn gyffredinol mae trefniadau ariannol y Cyngor yn effeithiol, ond mae angen datblygu cynlluniau arbedion manylach ar gyfer y dyfodol.'

57 Gwnaethom tri chynnig ar gyfer gwella:

- datblygu cynlluniau arbedion manylach i gwmpasu cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
- datblygu polisi cynhyrchu incwm/codi tâl; a
- datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllyn Ariannol Tymor Canolig.

Mae'r gwaith a wnaed fel rhan o'r asesiad hwn yn adeiladu ar y canfyddiadau hynny, tra'n cydnabod nad yw'r Cyngor wedi cael amser i weithredu ar y cynigion ar gyfer gwella eto.

58 Nododd yr adroddiad fod gan y Cyngor hanes da o fantoli'r gyllideb, er bod rhai amrywiadau o ran gwariant i'r gyllideb arfaethedig. Caiff y rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn ystod y flwyddyn eu cyflawni yn ôl y bwriad a chaiff cynlluniau arbedion o flynyddoedd blaenorol nas cyflawnwyd eu cario ymlaen, lle y bo'n ymarferol, i flynyddoedd sydd i ddod.

59 Rydym hefyd wedi adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran arbedion arfaethedig 2015-16 ac arbedion nas cyflawnwyd a gariwyd ymlaen o 2014-15. Roedd adroddiad monitro'r trydydd chwarter yn rhagweld diffyg rhagamcanol mewn arbedion arfaethedig o £840,000 ar gyfer 2015-16, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag arbedion o adolygiadau arfaethedig o wasanaethau, nad oeddent wedi dechrau pan gymeradwywyd cyllideb 2015-16. Y bwriad oedd gwneud iawn am y diffyg rhagamcanol gan ddefnyddio arbedion ychwanegol gwerth £982,000 o Brosiect Gwyrdd a gyflawnwyd yn gynt na'r disgwyl. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn wynebu diffyg o £650,000 o ran yr arbedion nas cyflawnwyd ac a gariwyd ymlaen o 2014-15, sy'n cyfateb i £750,000.

60 Wrth bennu ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2016-17, adolygodd y Cyngor y targedau arbedion dangosol ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2017-18 a gymeradwywyd pan oedd yn pennu ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2015-16. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2018-19, mae'r Cyngor wedi nodi cynigion ar gyfer gwneud arbedion gwerth £17.072 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £6.89 miliwn sy'n ymwneud â ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau ac adolygiadau o effeithlonrwydd gwasanaethau a gynhwyswyd yn Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Lle y bo angen, mae'r rhain wedi'u hailbroffilio am fod y Cyngor o'r farn bod angen mwy o amser arno i roi rhai o'r cynigion ar waith. O ganlyniad i hyn, mae'r arbedion gwreiddiol gwerth £2.25 miliwn a nodir yn y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau y bwriadwyd eu cyflawni yn 2016-17 wedi gostwng i £1.439 miliwn. Mae cynlluniau manwl i gyflawni'r arbedion hyn yn amodol ar ddatblygu a chwblhau achosion busnes. Gan ein bod wedi gwneud cynnig ar gyfer gwella sy'n ymwneud â manylion cynlluniau arbedion, byddem yn disgwyl gweld achosion busnes yn cael eu datblygu ynghynt dros gyfnod y tri thranche, er mwyn sicrhau y bydd cynlluniau manwl penodol ar waith cyn cytuno ar bob cyllideb flynyddol. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod yr arbedion hynny wedi'u hailbroffilio yn awgrymu bod y Cyngor wedi ailarfarnu dichonoldeb yr arbedion ac wedi llunio barn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni.

61 Yn 2015-16, ni ddiweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig tan fis Rhagfyr 2015, a oedd yn hwyrach nag arfer, er mwyn ei gwneud yn bosibl i oblygiadau ariannol fersiwn ddiwygiedig Cynllun Corfforaethol 2016-2020 gael eu hymgorffori, gan gysoni'r ddau gynllun. Er nad yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn adlewyrchu cyfnod llawn y Cynllun Corfforaethol ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gyfle i gysoni'r cyfnodau o amser os bydd yn symud cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ymlaen yn yr haf.

62 Nododd ein gwaith blaenorol hefyd fod fframwaith ar waith ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol. Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad cyllidebau a chynnydd o ran cyflawni arbedion bob mis i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r pwyllgorau craffu. Mae adroddiadau monitro cyllidebol yn cynnwys esboniadau o amrywiadau sylweddol i'r gyllideb arfaethedig, camau gweithredu arfaethedig i unioni cyllidebau a chynnydd o ran cyflawni arbedion arfaethedig. Mae arbedion ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau hefyd yn cael eu monitro gan Fwrdd y Rhaglen. Fodd bynnag, mae'r Cabinet ond yn cael adroddiad awdurdod cyfan ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran

cyflawni arbedion bob chwarter. At hynny, er bod adroddiadau monitro cyllidebol y pwyllgorau craffu yn cyfeirio at gynnydd o ran cyflawni arbedion arfaethedig, nid yw'r adroddiadau yn ddigon manwl i alluogi'r aelodau i herio'n adeiladol a deall pam na ellir cyflawni arbedion penodol. Yr adroddiadau a gyflwynir ar Raglen Gyllidebol Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r eithriad i hyn. Felly, er bod gwybodaeth ariannol yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r aelodau, dylai'r Cyngor roi gwybodaeth fanylach iddynt sy'n eu galluogi i nodi p'un a yw arbedion penodol wedi'u cyflawni neu heb eu cyflawni. Mae'n amlwg y bydd angen i hyn gyd-fynd â'r trefniadau adrodd ar berfformiad newydd, a gallai hyn ddigwydd drwy'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a Pherfformiad neu drwy graffu ar weithgarwch penodol o dan y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau.

63 Mae'r heriau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn golygu bod yn rhaid iddo ystyried y cyfleoedd posibl i leihau costau a chyfleoedd i gynhyrchu incwm (drwy godi tâl). Nid oes gan y Cyngor bolisi cynhyrchu incwm/codi tâl corfforaethol ac mae'r cyfrifoldeb am weithdrefnau incwm a chodi tâl yn nwylo Cyfarwyddiaethau unigol ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen dull gweithredu mwy strategol. Mae'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cynnwys ffrwd waith i adolygu cyfleoedd i gynhyrchu incwm a chodi tâl. Mae'r adolygiad bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Cyngor wedi dweud wrthym y caiff ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi cynhyrchu incwm/codi tâl corfforaethol.

64 Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei ddull o ymgynghori ynghylch cyllidebau a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau ariannol sy'n ei wynebu. Fel rhan o broses pennu cyllideb 2016-17, datblygodd y Cyngor 'Gwestiynau Cyffredin' i ddarparu mwy o wybodaeth i helpu unigolion i roi atebion hyddysg i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan ddysgu o brofiad blaenorol. Cynhaliodd sesiynau briffio gyda grwpiau cymunedol yn ogystal â chynnal arolwg ar-lein. Gweithredodd y Cyngor ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac argymhellodd y Gweithgor Cyllidebol sawl newid i gyllideb refeniw 2016-17, gan gynnwys ychwanegu £2 filiwn er mwyn ymateb i bwysau ar ofal cymdeithasol, £430,000 i helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu gwastraff a dileu'r targed i arbed £340,000 yn dilyn cyflwyno taliadau parcio ceir yng nghanol trefi.

| Cynigion ar gyfer Gwella |
| --- |
| **Cyllid**<br>• Cynnwys adroddiadau monitro arbedion manwl fel rhan o adroddiadau monitro cyllidebau ehangach, a nodi'r cynigion hynny sy'n ymwneud â'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. |

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod TGCh yn ffordd allweddol o ail-lunio gwasanaethau a chyflawni arbedion ac mae'n datblygu gweledigaeth gorfforaethol ac amcanion clir ar gyfer y gwasanaeth

65 Mae'r Cyngor yn ystyried bod TGCh a thechnoleg ddigidol yn ffordd allweddol o ail-lunio gwasanaethau ac mae disgwyl mawr y bydd yn gwneud arbedion o ran costau ac yn gwella gwasanaethau.

66 Mynegir dyheadau'r Cyngor yn y maes hwn drwy'r Strategaeth Ddigidol ddrafft a'r Strategaeth TGCh ddrafft. Mae'r Strategaeth Ddigidol ddrafft yn nodi amcanion clir a ffyrdd o nodi llwyddiant ac, ar y sail honno, gallai helpu i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r drafft ar gam cynnar, ac nid yw'n cynnwys digon o fanylion ar hyn o bryd.

67 Byddem yn disgwyl i'r Strategaeth TGCh fod yn ddogfen sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio gwybodaeth a thechnoleg i gyflawni ei Strategaeth Ddigidol. Fodd bynnag, prin yw'r cysylltiadau rhwng y Strategaeth TGCh drafft a'r Strategaeth Ddigidol drafft; yn wir, nid yw'r Strategaeth TGCh yn cyfeirio at unrhyw un o'r amcanion lefel uchel a nodir yn y Strategaeth Ddigidol. Yn lle hynny, mae'n canolbwyntio ar ddisgrifio cyfluniad presennol y gwasanaeth TGCh. Er ei bod yn arfer da sicrhau bod y trefniadau TGCh presennol wedi'u dogfennu'n dda, nid yw'r Strategaeth TGCh ddrafft bresennol yn ddigon manwl i hwyluso gwaith rheoli effeithiol o ddydd i ddydd, ac eto mae'n rhy fanwl ar gyfer dogfen strategol. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o waith sy'n mynd rhagddo.

68 Mae cynllun ar gyfer y gwasanaeth TGCh ar waith ac mae'n gyfrwng mwy addas i gyfleu'r amcanion rheoli o ddydd i ddydd ar gyfer y gwasanaeth, gan adael trosolwg strategol ag amcanion lefel uwch yn y Strategaeth TGCh. Byddai'r rhain wedyn yn cefnogi ac yn ategu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer technoleg ddigidol a nodir yn y Strategaeth Ddigidol.

69 Mae uwch aelodau o staff TGCh yn dra ymwybodol o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol o ran ffactorau ysgogi allanol megis ad-drefnu llywodraeth leol a datblygiadau technolegol, ac mae tystiolaeth bod y materion hyn yn cael eu hystyried mewn cynlluniau tymor canolig. Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn yn cael eu nodi'n ddigon eglur yn y dogfennau drafft strategol. Ceir arwyddion bod y Cyngor eisoes wedi derbyn ein hawgrym y dylai ymgorffori rheoli dogfennau yn eu dogfennau TGCh allweddol er mwyn helpu i sicrhau y cynhelir adolygiadau rheolaidd.

70 Ymddengys fod cydberthnasau gwaith rhwng staff TGCh, aelodau etholedig ac arweinwyr y Cyngor yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol. Mae gan y gwasanaeth TGCh hanes da o weithredu ar adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae cynrychiolwyr TGCh bellach yn aelodau o holl brosiectau mawr y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac mae hyn wedi sicrhau gwelliannau o ran cynnwys y gwasanaeth TGCh ar gam cynharach mewn rhywfaint o'r gweithgarwch datblygu.

71 Mae’r Cyngor yn datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer TGCh a all lywio’r Strategaeth TGCh a’r Strategaeth Ddigidol a ffurf y gwasanaeth TGCh. Mae’n bwysig bod gan aelodau a swyddogion weledigaeth glir ar gyfer dyfodol TGCh, sy’n dryloyw ac y gellir ei herio’n adeiladol a chraffu arni, ac sy’n cynnwys risgiau posibl o ran darparu gwasanaethau. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau y gall y gwasanaeth TGCh gyflawni ei swyddogaeth ac y gall y Cyngor fanteisio i’r eithaf ar TGCh a thechnoleg ddigidol fel rhan o’i agenda Ail-lunio Gwasanaethau.

| Cynigion ar gyfer Gwella |
| --- |
| **TGCh**<br>• Cwblhau’r gwaith sy’n mynd rhagddo, er mwyn pennu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y gwasanaeth TGCh er mwyn ei alluogi i gynllunio a chyflawni ei rôl fel galluogydd corfforaethol. |

## Mae’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn helpu’r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, drwy gynllun gweithlu datblygedig a gweithgarwch ymgysylltu helaeth â staff

72 Mae gan y Cyngor Gynllun Gweithlu strategol ar gyfer 2016-2020 sy’n nodi’r blaenoriaethau disgwyliedig o ran y gweithlu dros y pedair blynedd nesaf. Mae’n cynnwys gwybodaeth am broffil gweithlu’r Cyngor a’r farchnad lafur leol, yn ogystal â ffactorau allanol ehangach sy’n debygol o gael dylanwad. Mae cyfnod y cynllun hwn yn cyd-fynd â chyfnod y Cynllun Corfforaethol ac yn adlewyrchu’r blaenoriaethau a nodir ynddo, yn ogystal ag ystyriaethau ariannol a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae gan y Cyngor Strategaeth Adnoddau Dynol dyddiedig 2013-2017, sy’n cyd-fynd â chyfnod y Cynllun Gweithlu blaenorol. Mae’n nodi camau gweithredu, canlyniadau a mesurau penodol, er enghraifft mae rheoli nifer y staff lle mae nifer isel o ymddiswyddiadau gwirfoddol fel canran o leihad cyffredinol yn nifer y staff ynghyd ag effeithiolrwydd prosesau adleoli yn fesurau allweddol.

73 Mae Cynllun y Gweithlu yn disgrifio sut y dylai’r ddogfen gorfforaethol gael ei llywio gan waith cynllunio’r gweithlu ar lefel gwasanaeth. Mae’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn ategu’r gwaith o gynllunio’r gweithlu ar lefel gwasanaeth drwy ddarparu data a hwyluso cyfarfodydd. Y bwriad yw y caiff cynlluniau gweithlu manylach sy’n seiliedig ar wasanaethau eu datblygu ar yr un pryd â’r broses cynllunio gwasanaethau. Mae gwybodaeth am y gweithlu wedi’i chynnwys yng nghynlluniau gwasanaeth 2016-17, ac maent yn cynnwys blaenoriaethau ar wahân ar gyfer datblygu’r gweithlu, sy’n awgrymu dealltwriaeth o ofynion a phwysau o ran sgiliau, ac fe’u hadlewyrchir ar y cyfan yn y cynlluniau gweithredu cysylltiedig.

74 Mae rheolwyr yn nodi eu bod yn cael gwasanaeth rhagweithiol a chefnogol gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn ôl yr Undebau Llafur ceir cyfranogiad ac ymgysylltiad adeiladol. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad strwythurol o'r tîm Adnoddau Dynol. Mae'n bwriadu cynnwys y gyflogres yn swyddogaeth y Gwasanaeth Adnoddau Dynol o fis Mai 2016 a datblygu Partner Busnes Adnoddau Dynol a model hunanwasanaeth yn ystod 2016-17.

75 Mae nifer o bolisïau Adnoddau Dynol yn helpu rheolwyr i reoli materion staff, ac, yn fwy diweddar, mae rhai polisïau wedi'u hailddrafftio er mwyn ei gwneud hi'n haws eu deall a helpu rheolwyr i'w cymhwyso'n well. Mae hyn yn cynnwys y polisïau a phroseses diwygiedig sy'n ymwneud â Rheoli Presenoldeb a Disgyblu a Chwyno. Mae rhai polisïau newydd wedi'u datblygu hefyd mewn ymateb i'r newidiadau y mae'r Cyngor yn disgwyl eu gweld yn y dyfodol agos, megis Polisi Cynllunio Olyniaeth.

76 Pennir targedau ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch a llunnir adroddiadau ar absenoldeb oherwydd salwch, sy'n darparu data yn ôl Cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth, gan gynnwys ystadegau ar gwblhau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith. Cyflwynir adroddiadau i dimau rheoli'r cyfarwyddiaethau â'r Tîm Rheoli Corfforaethol bob mis, gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu bob chwe mis. Mae'r pwyllgorau craffu yn chwarae rôl weithredol o ran llywio ymateb y Cyngor i absenoldeb oherwydd salwch. Mae nifer yr achosion o absenoldeb oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen wedi cynyddu ac ers mis Medi 2015 rhoddwyd cynllun gweithredu clir ar waith i leihau nifer yr achosion o absenoldeb o'r fath, sy'n cynnwys:

- cynlluniau gweithredu ar gyfer cyfarwyddiaethau unigol;
- mynd i'r afael â'r 50 achos mwyaf blaenllaw o absenoldeb oherwydd salwch;
- defnyddio Iechyd Galwedigaethol i fynd i'r afael ag achosion o salwch hirdymor; a
- phecynnau cymorth i fynd i'r afael â'r prif reswm dros absenoldeb oherwydd salwch (sef straen a chyflyrau cyhyrysgerbydol).

77 Mae polisi a gweithdrefn arfarnu perfformiad ar waith ar gyfer pob aelod o staff gyda chyfradd gwblhau uchel; yn 2015-16, roedd y gyfradd gwblhau gyffredinol yn uchel ar 97.8 y cant, sydd hefyd yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer cyfarwyddiaethau unigol roedd y gyfradd ymateb rhwng 95.7 y cant a 100 y cant.

78 Mae’r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu Sefydliadol yn samplu detholiad o arfarniadau ac, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd gan wahanol fforymau rheoli, yn nodi anghenion hyfforddiant cyffredin ym mhob rhan o’r Cyngor. Y bwriad yw datblygu cynllun hyfforddi corfforaethol ar gyfer 2016-17. Ni chynhaliwyd archwiliad sgiliau eto, er bod y fersiwn ddrafft o Siarter y Staff yn nodi’r bwriad i gynnal un. Er na nodwyd unrhyw hyfforddiant gorfodol ar gyfer grwpiau galwedigaethol craidd, mae rhaglen sefydlu gorfforaethol gynhwysfawr a bwriedir i’r archwiliad sgiliau arwain at ‘basbort at hyfforddiant’. At hynny, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Datblygu Aelodau ddiwygiedig ar 7 Mawrth 2016. Mae’r Cyngor hefyd wedi datblygu’r ‘Caffi Arweinyddiaeth’ fel ffordd o ddatblygu darpar arweinwyr a rheolwyr o bob rhan o’r sefydliad. Roedd adborth o weithdai a chyfweliadau a gynhaliwyd gennym fel rhan o’r asesiad hwn yn gadarnhaol iawn.

## Astudiaeth achos 1 – Datblygu staff

Mae’r Caffi Arweinyddiaeth yn darparu fforwm i ymgysylltu â staff o bob maes gwasanaeth a’u datblygu.

### Astudiaeth achos

Datblygodd y Cyngor ei ‘Gaffi Arweinyddiaeth’ yn 2015 fel math gwahanol o raglen datblygu arweinwyr a rheolwyr. Y nod oedd creu amgylchedd anffurfiol ar ffurf caffi i gyflogeion rannu eu diddordeb mewn arweinyddiaeth. Bwriadwyd iddo fod yn ddewis amgen cost isel i hyfforddiant traddodiadol, yn ogystal â bod yn rhaglen agored a chynhwysol heb unrhyw ofynion dethol.

Mae’r Caffi yn gweithredu’n wirfoddol ‘ar ôl oriau gwaith’ bob trydydd dydd Iau ym mhob mis. Mae’n agored i gyflogeion sy’n arweinwyr neu’n ddarpar arweinwyr neu’r rhai sydd ond yn ymddiddori mewn arweinyddiaeth. Ers i’r Caffi agor mae wedi ymdrin â materion megis:

- Saith arfer arweinyddiaeth effeithiol
- Pŵer meddwl cadarnhaol
- Damcaniaeth manteision ymylol
- Deallusrwydd Emosiynol – beth ydyw
- Rheolwr, Arweinydd, Hyrwyddwr Lles

Mae’r Cyngor yn nodi bod nifer y rhai sy’n mynd i’r Caffi wedi cynyddu mwy nag 82 y cant a’i fod wedi tyfu cymaint nes bod Siambr y Cyngor yn llawn ar gyfer pob sesiwn a bod archebu lle bellach yn hanfodol.

Mae’r Cyngor wedi canfod bod y Caffi wedi nodi sgiliau na fanteisiwyd arnynt yn flaenorol ac wedi helpu i nodi darpar arweinwyr y dyfodol.

Mae gwerth y Caffi wedi’i gadarnhau gan y Cabinet ac fe’i cefnogir gan y Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae’r Cyngor wedi croesawu cydweithwyr o awdurdodau lleol eraill sy’n awyddus i fabwysiadu model tebyg. Mae’r Cyngor yn falch o’r Caffi Arweinyddiaeth ac yn awyddus i ehangu ei ffocws yn ystod y blynyddoedd i ddod a sicrhau ei le fel rhan allweddol o Raglen Datblygu’r Gweithlu.

79 Mae’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi cefnogi’r rhaglen ymgysylltu â staff helaeth a ddechreuodd yn 2015. Cymerodd hyd at 75 y cant o staff (heb gynnwys staff ysgolion) ran mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys sesiynau briffio, arolygon o gyflogeion a chynadleddau. Mae’r gweithgarwch hwn wedi arwain at ddatblygu ‘Siarter y Staff’, y bwriedir ei lansio ar ôl ymgynghori arni ym mis Gorffennaf 2016, ac ystyrir ei bod yn hanfodol i gynnal y momentwm hwn o ymgysylltu â staff a helpu i roi’r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar waith. Mae’r Cyngor wedi nodi ei fod yn bwriadu parhau i gynnwys staff wrth iddo geisio troi’r Siarter yn allbynnau pendant a monitro a phrofi ei heffeithiolrwydd. Mae’r Rheolwr Gyfarwyddwr yn amlwg, mae’n mynd i gyfarfodydd Timau Rheoli Cyfarwyddiaethau ac ystyrir ei fod yn chwarae rôl hollbwysig o ran llywio gweithgarwch ymgysylltu â staff yn y Cyngor. Mae ehangder y gweithgarwch ymgysylltu a’r Caffi Arweinyddiaeth yn nodweddiadol o’r ffordd agored a chynhwysol o weithio y mae uwch arweinwyr am ei hyrwyddo. Cydnabuwyd bod y ddau yn arfer da, gyda’r Caffi Arweinyddiaeth yn ennill gwobr ‘rheoli talent’, a’r dull o ymgysylltu â chyflogeion yn ennill gwobr ‘cysylltiadau cadarnhaol â chyflogeion’ yn Seremoni Wobrwyo Rheoli Rhagoriaeth mewn Pobl Rheolwyr Personél y Sector Cyhoeddus yn 2016.

## Mae’r Cyngor wedi gwella ei brosesau rheoli asedau corfforaethol, ond mae angen gwneud gwaith i sicrhau y caiff yr holl ddata eiddo, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau a gofynion rheoli adeiladau, eu cofnodi’n gywir a’u monitro

80 Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2015 i gwmpasu’r cyfnod rhwng 2015 a 2018. Mae’r cynllun hwn yn dangos yn glir sut y bydd asedau yn helpu i gyflawni amcanion corfforaethol. Y weledigaeth ar gyfer eiddo yw cael portffolio darbodus, cynaliadwy sy’n addas at y diben er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau ledled y Fro. Ategir y weledigaeth gan bum amcan, sef:

- sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a chynaliadwy o dir ac adeiladau er mwyn darparu eiddo sy’n addas at y diben er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau’r Cyngor;
- nodi cyfleoedd i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf drwy waredu eiddo dros ben a manteisio ar y cyfleoedd hynny;
- sicrhau bod y Rheolwyr Eiddo/Deiliaid Dyletswydd yn rheoli asedau’r Cyngor fel eu bod yn cydymffurfio â safonau statudol, rheoleiddiol a chorfforaethol priodol a’u bod yn cael eu cynnal a’u cadw i lefel briodol;
- sicrhau bod yr holl wybodaeth a gedwir am asedau yn hawdd ei deall ac yn hygyrch i ddarparwyr gwasanaethau; a
- gweithio mewn partneriaeth a chydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd o ran y ffordd y defnyddir asedau eiddo.

.

81 Mae gan y Cyngor Strategaeth Eiddo Corfforaethol hefyd sy'n ategu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ac a ddatblygwyd i bennu cyfeiriad ar gyfer rheoli portffolio tir ac eiddo'r Cyngor. Mae portffolio asedau eiddo'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o eiddo ac mae'n nodweddiadol o lawer o ddaliadau eiddo awdurdodau lleol. Mae'r portffolio yn cynnwys tir ac adeiladau gweithredol rhydd-ddaliadol a lesddaliadol, ynghyd ag eiddo a brydlesir neu a rentir gan y Cyngor fel y Landlord. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynhyrchu incwm o rent ac incwm masnachol sy'n cyfateb i tua £500,000 y flwyddyn.

82 Mae'r Cyngor wedi cwblhau rhaglen dreigl o adolygiadau o eiddo a ganolbwyntiodd i ddechrau ar adolygiadau maes gwasanaeth o Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac asedau Tai. Yn 2015, penododd y Cyngor ymgynghorydd eiddo allanol i gynnal adolygiad strategol o'i gategorïau o asedau allweddol a oedd yn weddill er mwyn helpu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl ohonynt a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Er bod adroddiad yr ymgynghorydd allanol yn gadarnhaol iawn ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau, nododd gamau gweithredu â blaenoriaeth sy'n cael eu datblygu fel prosiectau o fewn y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae gan y Cyngor raglen i roi'r camau gweithredu â blaenoriaeth ar waith, fel y cytunwyd gan y Cabinet.

83 Mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar lefel gorfforaethol yn cael ei ategu gan strwythurau i ddarparu ar gyfer penderfyniadau effeithiol ynghylch eiddo corfforaethol. Mae'r Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r cyfarwyddiaethau a phenaethiaid gwasanaethau ac uwch reolwyr. Mae'r Grŵp Gweithio Cynaliadwy a'r Grŵp Rheoli Carbon wedi'u hintegreiddio yn y Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol. Mae'r Rheolwr Ystadau hefyd yn aelod o'r Grŵp Rheoli Risg Gorfforaethol a gall dynnu sylw at unrhyw risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag eiddo. Mae hyn yn sicrhau synergedd am fod y Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol yn fforwm â ffocws gweithredol a strategol sy'n ystyried unrhyw faterion yn ymwneud ag eiddo sy'n effeithio ar wasanaethau a chyflogeion. Er enghraifft, mae cynigion cyfalaf, gwaredu asedau, gofynion eiddo, cynaliadwyedd a phrosiectau asedau mawr megis y prosiect gofod a throsglwyddo asedau cymunedol yn eitemau ar yr agenda. Mae'r grŵp hwn yn gwneud argymhellion i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w hystyried gan y Cabinet.

84 Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn rhan allweddol o drefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'n ofynnol i wasanaethau gwblhau holiaduron Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau bob blwyddyn gan nodi sut mae blaenoriaethau o ran gwasanaethau allweddol yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, sut mae asedau yn effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu ar hyn o bryd a'r ffordd y byddant yn cael eu darparu yn y dyfodol ac addasrwydd a digonolrwydd asedau. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio penderfyniadau ynghylch eiddo yn y dyfodol a diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Gohiriwyd y broses eleni er mwyn darparu ar gyfer cysoni'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol â'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

85 Mae ysgolion yn cyfrif am 65 y cant (£181 miliwn) o werth portffolio eiddo gweithredol cyffredinol y Cyngor. Adolygodd y Cyngor asedau ysgolion ar ddechrau'r rhaglen dreigl o adolygiadau ac roedd eisoes wedi symleiddio rhan o'r ystad ysgolion cyn cyflwyno Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rhoddodd hyn gyfle i ystyried datblygiadau a chyfuno ysgolion mewn ffordd wahanol a mwy uchelgeisiol. Er enghraifft, mae Cymuned Ddysgu Penarth yn ddatblygiad mawr sydd wedi dwyn tair ysgol ynghyd i ffurfio canolfan ddysgu ganolog, sy'n cynnwys lleoedd ysgol prif ffrwd ac anghenion arbennig, gan greu'r cyfleuster dysgu mwyaf o'i fath yng Nghymru.

86 Mae'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cynnwys y Prosiect Gofod y bwriedir iddo sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o swyddfeydd drwy addasu a defnyddio swyddfeydd mewn ffordd fwy hyblyg. Ystyrir bod y lleoliad canolog i staff yn cyfrannu at ryddhau arbedion refeniw a gwella trefniadau gweithio. Mae'r Cyngor eisoes wedi llwyddo i ad-drefnu swyddfeydd yn Haydock House a Swyddfa'r Dociau. Yn seiliedig ar y model hwn, mae'r Cyngor bellach yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar y lle sydd yn y Swyddfeydd Dinesig er mwyn adleoli staff sydd mewn adeiladau eraill ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn sicrhau arbedion gwerth £525,000 yn 2016-17.

87 Mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol grŵp rheoli asedau a elwir yn Fwrdd Rheoli Asedau Partneriaeth (PAMB) sy'n cyfarfod bob chwarter i ystyried a rhannu cynlluniau asedau a gwybodaeth am eiddo ac ystyried ffyrdd amgen o ddefnyddio a rhannu asedau'r sector cyhoeddus yn yr ardal. Mae'r fforwm hefyd yn cynnig cyfle i ystyried cydleoli a chysylltu gwasanaethau'r sector cyhoeddus, fel bod y gwasanaethau cyhoeddus hynny sydd eu hangen ar y gymuned yn cael eu darparu mewn ffordd fwy cydlynol.

88 Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn elfen allweddol o Raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg pum llyfrgell i grwpiau cymunedol ac mae'n ystyried opsiynau ar gyfer gwasanaethau ac asedau eraill yn y dyfodol o dan un o ffrydiau gwaith y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn ceisio bod yn fwy rhagweithiol a strategol o ran ei ddull o drosglwyddo asedau cymunedol. Ategir hyn drwy ddatblygu protocol diwygiedig ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol.

89 Mae gan y Cyngor Strategaeth Waredu ond nid oes ganddo ddigon o asedau dros ben. Felly, prin yw'r cyfleoedd i waredu asedau a phennu targedau ar gyfer derbyniadau cyfalaf. Er bod y rhaglen gyfalaf yn cynnwys derbyniadau cyfalaf rhagweledig sy'n ymwneud â'r rhaglen moderneiddio ysgolion, nid yw'n rhagweld derbyniadau ymlaen llaw ar gyfer asedau eraill.

90 Mae gan y Cyngor Strategaeth Gaffael ddrafft sy'n nodi'r protocol a'r prosesau y mae'n rhaid i wasanaethau eu dilyn cyn meddiannu safleoedd newydd. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod wedi gohirio'r broses o'i chwblhau a'i mabwysiadu yn fwriadol er mwyn darparu ar gyfer ei chysoni â'r blaenoriaethau corfforaethol newydd.

91 Mae’r Gwasanaeth Eiddo, sy’n cynnwys y tîm ystadau, yn gweithredu ar lefel strategol. Mae hefyd yn gyfrifol am reoli pum adeilad corfforaethol yn uniongyrchol, ochr yn ochr â phortffolio eiddo masnachol, a’r ystad mân-ddaliadau weddilliol. Mae’r gyllideb ar gyfer yr holl adeiladau sy’n weddill a’r cyfrifoldeb am eu rheoli’n gyffredinol wedi’u datganoli i wasanaethau. Mae’r tîm yn darparu nifer o wasanaethau eiddo craidd yn ogystal â rhoi cyngor a chymorth i wasanaethau. Mae’r tîm ystadau yn hyderus bod yr adeiladau y maent yn eu rheoli yn cydymffurfio â’r gofynion o ran iechyd a diogelwch a rheoli adeiladau, ond mae’n llai hyderus bod pob adeilad yn cael ei reoli yn yr un ffordd. O ganlyniad, sefydlwyd grŵp cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau bod yr holl reolwyr adeiladau yn cael eu hysbysu am gyfrifoldebau o ran rheoli adeiladau a’r gofynion o ran cynnal a chadw adeiladau.

92 Nid yw agweddau ar ddata asedau yn cael eu cofnodi mewn un man ar hyn o bryd ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu sail fwy cyson ar gyfer coladu ac integreiddio’r data asedau a’r data ar gyflwr a chydymffurfiaeth adeiladau. Nid yw’r system gyfredol yn cyflawni amcan y rhaglen Rheoli Asedau Corfforaethol, sef sicrhau bod yr holl wybodaeth a gedwir am asedau yn hawdd ei deall ac yn hygyrch i ddarparwyr gwasanaethau.

| Cynigion ar gyfer Gwella |
| --- |
| **Rheoli Asedau**<br>• Cyflymu’r broses o gasglu data cydymffurfiaeth adeiladau ar gyfer eiddo a reolir gan y Cyngor, a sicrhau y cânt eu cofnodi’n ganolog. Wedi hyn, cyflymu’r broses o ddarparu hyfforddiant cydymffurfiaeth eiddo i Reolwyr/Deiliaid Dyletswydd er mwyn sicrhau bod pob adeilad yn cydymffurfio â safonau statudol, rheoleiddiol a chorfforaethol priodol ac y cânt eu cynnal a’u cadw i lefel briodol. |

## Mae cysylltiadau â phartneriaid yn dda, ac mae trefniadau cydweithredol yn dod â manteision i waith y Cyngor mewn rhai meysydd allweddol, ond gellid gwella gweithgarwch craffu a'r ffordd y mae adnoddau ariannol yn cael eu rhannu ymhellach

### Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) wedi pennu ffocws ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ledled y Fro ac wedi meithrin cydberthnasau cynhyrchiol rhwng partneriaid sydd wedi gosod sylfaen dda ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd, ond gellid datblygu prosesau rhannu adnoddau ymhellach

93 Mae'r BGLl yn dwyn ynghyd fwy na 12 sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ledled yr ardal awdurdod lleol. Fel y nodwyd uchod, pennwyd canlyniadau â blaenoriaeth yn Strategaeth Gymunedol 2011-2021 a Chynllun Cyflawni 2014-2018 yn dilyn Asesiad Anghenion Unedig a gynhaliwyd yn ystod 2013. Mae'r canlyniadau â blaenoriaeth yn y Strategaeth Gymunedol yn set gydlynol o amcanion sy'n ceisio mynd i'r afael â materion allweddol ledled y Fro. Maent yn hawdd eu deall ac yn cyfleu gweledigaeth y Cyngor a'i bartneriaid.

94 Mae'r BGLl wedi adeiladu ar Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi – **Creu Cymunedau Cryf** er mwyn datblygu tair blaenoriaeth – sef Atal Tlodi, Helpu Pobl i Gael Gwaith a Lliniaru Tlodi. Mae cysoni camau gweithredu yn y meysydd allweddol hyn yn cael ei gefnogi gan bartneriaid ac mae'n ddull ymarferol o bennu camau gweithredu â blaenoriaeth. Er iddo bennu set o gamau gweithredu â blaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi, mae'r BGLl wedi parhau i fonitro canlyniadau yn erbyn 10 canlyniad â blaenoriaeth y Strategaeth Gymunedol yn y Strategaeth Gymunedol wreiddiol.

95 Mae partneriaid allanol yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y rôl y mae'r Cyngor yn ei chwarae o fewn y BGLl. Mae'n bartner cefnogol, gyda staff ac aelodau yn dangos ymrwymiad i neilltuo adnoddau i gefnogi gwaith y BGLl. Ystyrir ei fod yn bartner agored a thryloyw a bod trefniadau llywodraethu yn effeithiol.

96 Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth ariannol a geir yn y Cynllun Cyflawni i benderfynu sut y caiff adnoddau eu defnyddio yn gyffredinol na sut y caiff adnoddau ariannol eu cyfuno i fynd i'r afael â'r canlyniadau â blaenoriaeth. Er bod fframwaith effeithiol ar waith i ddatblygu trefniadau cydweithio effeithiol, prin yw'r enghreifftiau o bartneriaid yn cyfuno adnoddau drwy waith y BGLl ac nid oes diogon o waith yn cael ei wneud i werthuso llwyddiant o ran denu arian ychwanegol. Mae partneriaid allanol yn mynegi pryderon nad yw blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd y BGLl bob amser yn cael eu gweithredu pan ystyrir y goblygiadau ariannol. At hynny, mae partneriaid yn mynegi pryderon ynghylch y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ac oedi o ran ei rhoi ar waith.

97 Sefydlwyd Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd a'r Fro ym mis Mehefin 2014. Mae wedi'i gadeirio gan Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n helpu i ddatblygu agendâu cyffredin gyda phartneriaid allweddol. Mae trefniadau'r Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Lleol yn annog deialog lefel uchel ynghylch materion allweddol sy'n effeithio ar y ddau Gyngor, a lle y ceir agendâu a heriau cyffredin.

## Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac mae’n dweud bod prosesau a chanlyniadau wedi gwella

98 Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn faes allweddol o waith partneriaeth y mae’r Cyngor wedi’i flaenoriaethu. Mae’r Cyngor a’i bartneriaid wedi rhoi trefniadau ar waith i oruchwylio a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig ac mae’n dweud bod prosesau a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau wedi gwella.

99 Yn 2010, penododd y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro ar y cyd Bennaeth Gwasanaethau i Oedolion/Rheolwr Ardal. Mae partneriaid o’r farn bod hyn wedi bod yn allweddol i hwyluso cydberthnasau gwaith agosach rhwng y ddau sefydliad. Un enghraifft yw Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (VCRS) lle mae staff wedi’u cydleoli, lle mae cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rheoli ar y cyd a lle y ceir un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau at y gwasanaeth adsefydlu yn y cartref canolraddol (iechyd) a’r gwasanaeth ail-alluogi (gofal cymdeithasol). Ehangwyd y tîm hwn yn 2014 gan ddefnyddio arian Cydweithredu Rhanbarthol, ac ar gyfer 2014-15, nododd y Cyngor fod nifer yr oriau o ofal cartref roedd angen i Wasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro eu darparu yn dilyn cyfnod o ail-alluogi wedi lleihau 29 y cant.

100 Yn rhanbarthol, mae Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a’r Fro yn goruchwylio’r gwaith. Mae aelodau eraill yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, y trydydd sector ac, yn fwy diweddar, y sector annibynnol. Mae strwythur llywodraethu clir a gynrychiolir, ar ei lefel uchaf, gan arweinwyr Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd.

101 Nododd y rhai a gyfwelwyd fod y bartneriaeth wedi cryfhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod mwy o awydd i gydweithio. Er enghraifft, mae partneriaid ar y cyd wedi cymryd cyfrifoldeb am leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ar ôl i’r rhanbarth gofnodi’r nifer fwyaf erioed o achosion o’r fath ym mis Chwefror 2015, a arweiniodd at lunio cynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer mynd i’r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Dengys Dangosydd Strategol Cenedlaethol awdurdodau lleol ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal fod nifer yr achosion yn y Fro wedi lleihau’n sylweddol rhwng 2013-14 a 2014-15. Yn ystod y cyfnod hwn, rhagorodd y Cyngor ar ei darged ei hun a chyfartaledd Cymru a llwyddodd i wella ei berfformiad gan godi o’r 18fed safle i’r 14eg safle yng Nghymru.

102 Er y gall fod tensiynau o hyd mewn perthynas â chyllid, mae adnoddau a rennir megis y gronfa gofal canolraddol wedi bod o fudd mawr i hwyluso cydweithio, ac mae partneriaid yn dechrau ystyried opsiynau ar gyfer comisiynu ar y cyd. Er mwyn cyflymu’r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, mae partneriaid bellach wedi datblygu ‘cynllun gweithredu llwybr carlam’, ac adlewyrchir y ffrydiau gwaith sy’n datblygu yn strwythur llywodraethu’r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. Yn 2016, penododd y bartneriaeth ar y cyd Gyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

103 Caiff risgiau sy'n gysylltiedig ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol eu cynnwys yng nghofrestr risg gorfforaethol y Cyngor. Mae'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar y rhestr yn sicrhau bod ymwybyddiaeth gorfforaethol o'r risg. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith mewn meysydd megis trefniadau ariannu a chomisiynu ar y cyd, a datblygu systemau TGCh a rennir.

## Mae'r Cyngor yn fodlon ystyried modelau amgen o ddarparu gwasanaethau drwy drefniadau cydweithio ac mae'n cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau o ganlyniad i hynny

104 Mae'r Cyngor wedi cydweithio â chynghorau cyfagos er mwyn sicrhau y gall gyflawni arbedion effeithlonrwydd a bod ganddo'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau. Mae wedi sefydlu Cydwasanaeth Rheoleiddio (sy'n cynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) mewn partneriaeth â dau gyngor arall, ac mae ganddo gydwasanaeth Archwilio Mewnol ag un cyngor arall.

105 Mae'r Cyngor yn ystyried bod y Cydwasanaethau Rheoleiddio sydd wedi'u datblygu yn llwyddiant, ond nid yw trefniadau craffu i gwmpasu'r gwasanaeth cyfan wedi'u cwblhau eto. Mae'r Cyngor wedi nodi bod hyn yn gam nesaf angenrheidiol yn y broses o ddatblygu'r gwasanaethau hyn.

106 Mae'n anochel y bydd cydweithio yn nodwedd allweddol ar weithgarwch Ail-lunio Gwasanaethau. Un enghraifft fydd trosglwyddo asedau a gwasanaethau i Gynghorau Tref a Chymuned a grwpiau gwirfoddol. Mae cydberthnasau'r Cyngor â Chynghorau Tref a Chymuned yn gadarn, gyda chyfathrebu da a chydnabyddiaeth o'r manteision a all ddeilio o weithio mewn partneriaeth. Mae fframwaith wedi'i sefydlu ar gyfer trosglwyddo asedau a gwasanaethau o bosibl. Fodd bynnag, er eu bod yn mynegi diddordeb cyffredinol, mae partneriaid hefyd yn mynegi pryderon nad oes unrhyw fanylion ar hyn o bryd am gyllid refeniw a chymorth ariannol sydd ar gael i gymryd cyfrifoldeb am yr asedau hyn. Heb y wybodaeth fanwl hon, mae'n anos asesu rhwymedigaethau yn y dyfodol a gall atal asedau cymunedol rhag cael eu trosglwyddo'n effeithiol.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, o dan rai amgylchiadau, gynnal archwiliadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig SAC yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Adborth ar weithgarwch craffu

## Mae ansawdd gweithgarwch craffu wedi parhau i wella ac mae'r trefniadau bellach yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau ffocws ar werthuso canlyniadau

Arsylwyd pwyllgorau craffu yn flaenorol ar ddechrau 2015 a chynhaliwyd sesiynau arsylwi pellach fel rhan o'r asesiad hwn. Nodwyd gennym fod y swyddogaeth graffu wedi gweithredu o fewn fframwaith clir, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio, cadeirio effeithiol ar y cyfan a chymorth da gan Wasanaethau Democrataidd.

Nododd y Cyngor ei fwriad i wneud newidiadau i'w drefniadau craffu yn 2016-17, gan gynnwys ailstrwythuro'r pwyllgorau fel rhan o adolygiad ehangach o'i fframwaith rheoli perfformiad. Mae hyn bellach wedi'i wneud ac mae cylchoedd gwaith y pum pwyllgor craffu wedi'u hailddynodi er mwyn adlewyrchu pedwar canlyniad lles y Cyngor (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol), tra'n cynnal un pwyllgor craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, sy'n cael gwybodaeth ariannol a gwybodaeth monitro perfformiad. Y bwriad yw y bydd gweithgarwch craffu yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau ac yn ystyried amrywiaeth ehangach o wybodaeth drawsbynciol. At hynny, gallai ailstrwythuro pwyllgorau helpu i leihau dyblygu mewn adroddiadau. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn bydd angen sicrhau bod gan yr aelodau a'r swyddogion ddealltwriaeth glir o'r pwyllgor 'cartref' ar gyfer materion a gwasanaethau a bod cadeiryddion pwyllgorau yn cyfathrebu â'i gilydd. At hynny, gwneir rhagor o newidiadau ymarferol i wella trefniadau gweithio'r pwyllgorau drwy'r broses barhaus o roi camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwella Craffu ar waith. Mae ein casgliadau wedi'u gosod yn y cyd-destun hwn, gan gydnabod bod y Cyngor eisoes yn cynllunio i fynd i'r afael â llawer o'r materion y byddem fel arall yn eu nodi ar gyfer gwella.

Yn ddiweddar datblygodd y Cyngor Brotocol ar gyfer Rolau a Chyfrifoldebau Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet (fel y'i nodir yn y Cynllun Gweithredu Gwella Craffu, a oedd ar ffurf ddrafft ar adeg cynnal yr asesiad ond sydd wedi'i gymeradwyo ers hynny) sy'n rhoi rhagor o ganllawiau er mwyn cefnogi swyddogaeth graffu effeithiol. Fodd bynnag, ymddengys fod y Protocol yn adlewyrchu'r trefniadau presennol a gallai adlewyrchu'r fframwaith rheoli perfformiad newydd a'r strwythur craffu yn gliriach. Er enghraifft, mae'n cyfeirio at fonitro perfformiad gwasanaethau sy'n rhan o'i gylch gwaith yn erbyn targedau allweddol, yn hytrach na rhoi trosolwg o'r canlyniadau a'r adroddiadau ar ganlyniadau ac amcanion lles.

Dangosodd y sesiynau arsylwi a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hwn fod cynnydd wedi bod yn nifer y cwestiynau a oedd yn cael eu holi a'r cyfraniadau a oedd yn cael eu gwneud gan bob aelod mewn rhai pwyllgorau, sy'n dangos cynnydd. Fodd bynnag, yng nghyfarfodydd pwyllgorau eraill, roedd nifer y cyfraniadau gan aelodau yn amrywio. At hynny, er i ni weld holi craff a ddangosodd fod yr aelodau yn deall y materion, nid ymddengys fod yr holi wedi'i gydgysylltu ym mhob rhan o'r pwyllgor. Gall cyfarfodydd ymlaen llaw sy'n digwydd cyn y cyfarfod pwyllgor ffurfiol roi cyfle i aelodau drafod a chytuno ar y canlyniad y bwriedir i'w gael o'r cyfarfod, y llinellau allweddol ymholi ar gyfer cwestiynau, a'r dull o ran holi y mae'r pwyllgor yn bwriadu ei gymryd. Gallant helpu gyda chynllunio ar y cyd ynghylch gweithgarwch a chwestiynau.[2]

Mae'r aelodau yn cael adroddiadau manwl ar gyfer y rhan fwyaf o eitemau ac fe'u hategir gan gyflwyniadau gan swyddogion sy'n tynnu sylw at bwyntiau allweddol. Mae pwyllgorau craffu yn cael adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf bob mis. Mae cyfrifwyr yn mynd i gyfarfodydd i gyflwyno'r adroddiadau hyn ac ateb unrhyw gwestiynau. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro cyllidebau yn rhoi digon o fanylion i alluogi aelodau i nodi pam nad yw targedau arbedion penodol wedi'u cyflawni.

2 **Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol,** Swyddfa Archwilio Cymru, 2014.

At hynny, roedd gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chyflwyno ar wahân ar adeg cynnal yr asesiad, nad yw'n hwyluso'r broses o ystyried perfformiad yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Dylai'r newidiadau arfaethedig i brosesau adrodd ar berfformiad, a fydd yn golygu cyflwyno set gytbwys o fesurau, gysoni'r wybodaeth honno.

Ar adeg cynnal yr asesiad, roedd Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei llunio bob chwarter. Mae Protocol Rolau a Chyfrifoldebau Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn nodi y bydd bellach yn cael ei llunio i gwmpasu cyfnod llawn o 12 mis. Mae'r trefniant hwn bellach ar waith, ac mae Blaenraglen Waith Strategol Flynyddol bellach wedi'i llunio ar gyfer 2016-17 ac eisoes wedi'i chyflwyno i'r Cabinet. Bydd hyn yn galluogi pwyllgorau craffu i gynllunio eu rhaglenni gwaith eu hunain yn well er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar faterion allweddol ac y gallant gynnwys amser i ddatblygu polisïau drwy weithgarwch rhag-graffu, lle y bo angen.

Mae'n debygol y bydd y Cyngor, drwy ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau, yn gwneud nifer o drefniadau gwahanol â sefydliadau allanol. Bydd gan bwyllgorau craffu rôl i'w chwarae ar y dechrau drwy graffu ar gynigion a dylid adlewyrchu hyn yn y Blaengynlluniau Gwaith. Bydd gan bwyllgorau craffu rôl i'w chwarae hefyd o ran craffu ar y ffordd y caiff unrhyw drefniant newydd o'r fath ei gyflawni.

Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi datblygu Cydbwyllgor i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cydwasanaeth Rheoleiddio. Mae'n ymwybodol bod angen iddo bellach ddatblygu trefniadau craffu ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r Cyngor wedi datblygu rhai systemau i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. Gall aelodau o'r cyhoedd awgrymu pwnc i'r pwyllgor craffu ei ystyried ac mae'r Cyngor wedi sefydlu proses i alluogi aelodau o'r cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd pwyllgorau craffu. Hefyd, mae rhywfaint o ddiddordeb mewn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleuster gweddarlledu, yn enwedig pan fydd materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu trafod.

Yn gyffredinol, mae'r newidiadau y mae'r Cyngor wrthi'n eu gwneud yn cynnig cyfle i sicrhau bod gweithgarwch craffu yn cael yr effaith fwyaf posibl drwy:

- gysoni blaenraglenni gwaith i ganolbwyntio ar faterion allweddol;
- rhyddhau amser agenda i ganolbwyntio ar lai o eitemau yn fanwl, gan wella effeithlonrwydd yn ogystal â chynyddu'r effaith; a
- gwella'r wybodaeth y mae pwyllgorau craffu yn ei chael drwy gysoni gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth bwysig arall, megis barn dinasyddion, a chanolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, a chefnogi'r broses o ystyried gwerth am arian.

# Atodiad 3 – Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

Nodir y gwaith a wnaed yn 2015-16, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. Daethom i'r casgliad canlynol; 'Yn gyffredinol mae trefniadau ariannol y Cyngor yn effeithiol, ond mae angen datblygu cynlluniau arbedion manylach ar gyfer y dyfodol'. Gwnaethom tri chynnig ar gyfer gwella. |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella a gadarnhaodd fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad perfformiad cyhoeddedig y Cyngor a gadarnhaodd fod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion statudol. |
| **Adroddiadau cenedlaethol** | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |
| **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfrifon** | Adolygiad o ddatganiadau ariannol y Cyngor a daeth i'r casgliad eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o'i sefyllfa ariannol a'i drafodion. |
| **Ymweliad Monitro Estyn** | Barnwyd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym mis Mai 2013. O ganlyniad, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) o'r farn nad oedd angen i'r awdurdod gael ei fonitro gan Estyn mwyach. |
| **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad AGGCC 2014-15** | Adolygiad AGGCC o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant y Cyngor. |
| **Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg** | Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Cyngor ar 30 Medi 2015, a oedd yn nodi'r safonau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â hwy, a'r amserlenni. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru